








# SWYDDOG DYSGU DIGIDOL

## PECYN GWYBODAETH AM Y SWYDD





GWASANAETHAU CORFFORAETHOL
CYNGOR GWYNEDD

DYSGU A DATBLYGU

# SWYDDOG DYSGU DIGIDOL

## YDYCH CHI...

Gyda diddordeb mewn datblygu sgiliau digidol pobl?

Yn berson brwdfrydig a phositif?

Eisiau gweithio mewn tîm hwyliog sydd yn hoffi trio pethau newydd?

Yn gallu delio efo gwahanol bobl?

Gyda sgiliau cyfathrebu da?

Yn gallu bod yn greadigol?

Yn hyblyg ac yn gallu addasu i sefyllfaoedd gwahanol ?

**Os ydych chi yn ateb "YNDW" i rhai o'r pwyntiau uchod efallai mai hon yw y swydd i chi**


## BETH MAE SWYDDOG DYSGU DIGIDOL YN EI WNEUD?

Efallai eich bod chi heb ystyried gweithio yn y maes dysgu digidol o'r blaen ac eisiau deall mwy am y rôl yn gyffredinol cyn mentro dim pellach. Dyma chi dri disgrifiad bras:

1. Mae Swyddog Dysgu Digidol yn cefnogi staff wrth ddatblygu eu sgiliau digidol

2. Mae Swyddog Dysgu Digidol yn darparu cefnogaeth weinyddol a hwyluso trefniadau i'r holl gynlluniau sydd yn ymwneud a dysgu digidol i staff y Cyngor


3. Mae Swyddog Dysgu Digidol yn darparu cymorth ac arweiniad i staff i wella eu hyder a'u gallu wrth ddefnyddio systemau digidol



Dyma gyfle i chi weithio mewn swydd sydd yn gallu gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Mae'n gyfle i chi weithio ar gynlluniau sydd yn agor drysau i unigolion ac eu galluogi i wneud yr hyn y dymunem ei wneud efo'u bywydau a datblygu a gwella eu hunain.



Dyma gyfle i chi weithio gydag arbenigwyr yn y maes dysgu digidol bob dydd i ddysgu pethau newydd. Mi gewch chi hefyd gyfle i gwblhau cymwysterau, mynychu hyfforddiant a chymryd mantais o unrhyw gyfleoedd eraill sydd ar gael i ddatblygu eich hun.



Mae hon yn swydd allweddol o fewn y tîm. Mae ein gwaith yn rhan hanfodol o un o flaenoriaethau y Cyngor sef datblygu ein staff, sydd yn sicrhau bod gennym y gweithlu gorau posib i roi y gwasnaeth gorau bosib

# CYNNWYS

Cyflwyniad ........ 1
Y Swydd ........ 2
Trosolwg o'r Cyngor ........ 3
Trosolwg o'r Adran ........ 4
Trosolwg o'r Tîm ........ 5
Buddiannau ........ 6
I Orffen ........ 7



# CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio'n galed pob dydd i sicrhau bod ein staff yn cael mynediad i ddarpariaeth dysgu effeithiol fel eu bod yn gallu datblygu eu hunain ac i ddarparu'r gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd.

Mae'r maes dysgu digidol, yn un sydd yn tyfu yn ddyddiol, ac mae'r cyfleoedd i fod yn arloesol ac i drio pethau newydd yn ddi-ben-draw yn y maes yma.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn arwain ar gynlluniau dysgu digidol i sicrhau bod ein gweithlu gyda'r mynediad, y sgiliau a'r awydd i gymryd mantais lawn o'r math yma o ddysgu.

Mae'r maes yn cynnwys edrych mewn i ddulliau newydd, fel defnyddio AI, hyfforddi'n hybrid, datblygu platfformau digidol a defnyddio bob math o gyfryngau a meddalwedd i sicrhau y profiad gorau i'n staff.

Dyma gyfle gwych i chi ymuno â thîm sydd yn torri tir newydd yn y maes dysgu digidol yn y sector gyhoeddus, sydd wir yn gwneud gwahaniaeth ac yn cynnig cyfleoedd dysgu o'r ansawdd uchaf i bobl ddatblygu eu hunain.

Os ydach chi wedi meddwl yr hoffech chi her newydd neu wedi ystyried secondiad, ond yn fwy na dim yn angerddol am ddatblygu pobol i fod y gorau y gallent fod, mae'r cyfle yma yn berffaith i chi.

Edrychaf ymlaen at ddarllen eich cais.

**Alun Lloyd Williams**
Rheolwr Llinell
Arweinydd Talent, Cyngor Gwynedd

# Y SWYDD

## BYDDWCH YN:


- Cefnogi'r Cydlynydd Dysgu Digidol i adnabod, asesu a gwerthuso anghenion dysgu digidol staff ar draws y Cyngor a dylunio deunyddiau ac adnoddau dysgu priodol i gyfarch yr anghenion rheini
- Cefnogi staff y Cyngor i ddatblygu eu sgiliau digidol er mwyn iddynt cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol
- Cefnogi rheolwyr ac arweinyddion tîm wrth greu cynlluniau datblygu addas
- Cyd-weithio gyda'r Cydlynydd Dysgu Digidol i weithio gyda sefydliadau a chwmnïau allanol sydd yn darparu dysgu digidol i deilwrio rhaglenni addas ar gyfer staff
- Datblygu a chyflwyno hyfforddiant ar draws safleoedd dros y Sir sydd wedi eu teilwra i grwpiau penodol o staff (e.e. staff rheng flaen, sgiliau sylfaenol iawn)
- Darparu cymorth ac arweiniad i staff i wella eu hyder a'u gallu wrth ddefnyddio systemau digidol e.e. y Porth e-ddysgu, Ganolfan Bolisi, Modiwl Datblygu Staff, Y Fewnrwyd ayyb

## GWYBODAETH:

- Mae'r cyflog ar raddfa **S2** sydd yn cychwyn ar **£31,537**
- Mi fydd y cytundeb am **2 flynedd** i gychwyn
- Byddwn yn croesawu secondiadau
- Mi gewch chi **27.5 o ddiwrnodau gwyliau** dros flwyddyn
- Mi gewch chi hefyd **8 diwrnod o wyliau banc** yn ychwanegol

# TROSOLWG O'R CYNGOR










Pan feddyliwch chi am beth mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud, beth yw'r peth cyntaf sy'n dod i'ch meddwl chi: casglu trethi, hel sbwriel neu redeg llyfrgelloedd efallai? Os un o'r atebion hyn sy'n dod i'ch pen yn gyntaf, rydych chi'n hollol gywir, ond mae'n bosib na fuasech yn ymwybodol o'r amrediad o wasanaethau a swyddogaethau eraill y mae llywodraeth leol yn eu gwneud bob dydd. Mae Cyngor Gwynedd yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ar draws ein Sir gan gynnwys addysgu ein plant, gofalu am ein pobl, glanhau ein strydoedd, edrych ar ôl ein llesiant a hybu ein busnesau lleol i lwyddo.

Y prif beth sy'n ein galluogi ni fel Cyngor i wneud hyn yw'r staff sy'n gweithio yma. Mae'r Cyngor yn llawn pobl sydd wedi dewis gweithio yma oherwydd eu bod eisiau helpu pobl Gwynedd a gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau a'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddynt.

Mi fydd y swydd hon yn gyfle i chi weithio ar draws adrannau y Cyngor a chefnogi y gwasanaethau i yma i gyd.

## Ffeithiau am Cyngor Gwynedd

- Mae'r Cyngor yn gwasanaethu bron i 120,000 o bobl
- Mae dros 6000 o staff yn gweithio yn y Cyngor
- Mae'r Cyngor yn cynnig dros 100 o wasanaethau i bobl Gwynedd a thu hwnt bob dydd



# TROSOLWG O'R ADRAN

**Mae’r Cyngor wedi ei rannu i 9 Adran gwahanol . Os fyddwch chi yn llwyddiannus, mi fyddwch chi yn gweithio yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Ian Jones yw Pennaeth yr Adran. Dyma’r gwahanol wasanaethau o fewn yr Adran:**

**Dysgu a Datblygu'r Sefydliad** – Datblygu cyfleoedd dysgu, cymwysterau, hyfforddiant i gynghorwyr a staff, newid ymddygiad, cefnogi diwylliant.

**Caffael** – cadw'r budd yn lleol, rheolaeth categori, e-gaffael.

**Cyfathrebu ag Ymgysylltu** – ymdrin â'r wasg, cyfathrebu mewnol, gwefan y Cyngor, ymgysylltu, cyfryngau cymdeithasol.

**Cyswllt Cwsmer** – Canolfan gyswllt Galw Gwynedd, Siopau Gwynedd, gwasanaeth cofrestru.

**Gwasanaethau Cefnogol** – gweinyddiaeth penodiadau, archebu nwyddau, argraffu, talu biliau, dosbarthu post.

**Democratiaeth ac Iaith** – Cefnogaeth i Aelodau, gweinyddu pwyllgorau, craffu, Hunaniaeth, cynllun iaith, cyfieithu.

**Iechyd, Diogelwch a Llesiant** – Iechyd a diogelwch, iechyd galwedigaethol, symud a thrin.

**Ymchwil a Gwybodaeth** – ymchwil, dadansoddi data, rheoli gwybodaeth, diogelu data, rhyddid gwybodaeth.

**Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol** – amodau gwaith, cyflog cyfartal, cyngor ar absenoldebau, disgyblaethu a chwynion, recriwtio pobl.

**Yn ogystal â’r gwaith dydd i ddydd, mae’r Adran yn arwain ar y prosiectau arloesol yma:**

- Cadw’r Budd yn Lleol
- Merched mewn Arweinyddiaeth
- Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb i sicrhau Tegwch i Bawb
- Enwau Llefydd  Gymreig
- Hybu defnydd o’r Gymraeg o fewn gwasanaethau’r Cyngor

# TROSOLWG O'R TIM

Mi fyddwch yn rhan o'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu wedi ei leoli o fewn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Un rhan o waith y gwasanaeth yw arwain ar y gwaith o sicrhau bod pob aelod o staff yn cael mynediad i gyfleoedd hyfforddiant, gan gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol parhaus holl staff y Cyngor.

**PRIF GYFRIFOLDEB Y GWASANAETH O RAN HYFFORDDIANT YDI:**

- Cefnogi a datblygu unigolion a thimau ar draws pob adran yn y Cyngor i gyflawni eu rôl i orau eu gallu, er mwyn darparu gwasanaethau o werth i bobl Gwynedd
- Datblygu a meithrin diwylliant sy'n galluogi staff ac aelodau i roi o'u gorau ar gyfer pobl Gwynedd
- Denu a datblygu gweithlu priodol ar gyfer y dyfodol
- Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau sy'n gwella gwasanaethau er lles trigolion a chymunedau Gwynedd a busnesau lleol

## ROLAU O FEWN Y GWASANAETH

Rheolwr Dysgu a Datblygu

Arweinydd Talent

Cydlynydd Dysgu Digidol

Swyddog Busnes

Arweinydd Prosiect

Uwch Swyddog Talent

Swyddog Marchnata

Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol

Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith

Swyddog Datblygu Aelodau

Swyddog Dysgu a Datblygu

Swyddog Cefnogol

## DISGRIFIO Y TÎM

**Geiriau sydd yn disgrifio y tîm orau**

- Cefnogol
- Creadigol
- Barod am her
- Mentrus
- Hwyliog

# BUDDIANNAU

**Nid yn unig ein bod ni yn cynnig cyflog cystadleuol ac amodau a thelerau gwaith ffantastig, mae amryw o fuddiannau eraill, tebyg i:**

### Cynllun pensiwn

Rydym yn gweithredu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwybodaeth am y gronfa ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

### Absenoldebau arbennig

Mi allwch chi gael absenoldeb gyda thâl mewn amgylchiadau arbennig, er enghraifft, i symud tŷ, profedigaeth, apwyntiadau meddygol, ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

### Cydbwysedd bywyd a gwaith

Rydym yn cynnig nifer o gyfleoedd gweithio'n hyblyg er mwyn helpu i chi i daro cydbwysedd iach rhwng bywyd cartref a gwaith. Gallwch fanteisio o'r trefniadau tebyg i 'r Cynllun gweithio oriau ystwyth (Fflecsi), absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu neu absenoldeb ychwanegol heb dâl i rieni a gofalwyr a chyfle i weithio'n hyblyg os oes angen

### Cyfleoedd i ddysgu a datblygu

Rydym yn gweld gwerth uchel mewn buddsoddi yn ein adnodd pwysicaf - sef ein gweithwyr. Mi gewch chi bob cyfle i ddatblygu eich hun drwy fynychu digwyddiadau a chwblhau cymwysterau

### Gallwch hefyd ddisgwyl:

- Proses Croeso ffurfiol ac adolygiadau perfformiad rheolaidd
- Amryw o gyfleodd i ddysgu a datblygu
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol

### Hefyd:

- Mae cyfleusterau parcio am ddim yn y rhan fwyaf o safleoedd y Cyngor
- Mi gewch chi brofion llygaid am ddim, i swyddogion sy'n gwneud defnydd rheolaidd o Sgriniau Arddangos Gweledol (VDU's)
- Mi gewch chi hefyd ostyngiadau gyda busnesau lleol a chenedlaethol

# I ORFFEN...

## GAIR O GYNGOR

Mae'n bwysig fod eich cais yn canolbwyntio ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r swydd, sydd yn y manylion person

Dylech edrych yn ofalus ar y Manylion Person i wneud yn siwr fod eich cais yn ateb y gofynion **HANFODOL** ond hefyd eich bod yn ceisio cyfarch yr elfennau **DYMUNOL** os y medrwch chi.

Gwnewch ychydig o ymchwil i mewn i'r Cyngor a'r cynlluniau.

Cofiwch sicrhau cywirdeb iaith, bod yn gryno, eglur ac i'r pwynt.

Defnyddiwch ddigon o enghreifftiau.

## CYFWELIAD

Os byddwch yn llwyddiannus i gael ar y rhestr fer, mi fyddwch chi yn cael cyfweliad

Pwrpas y cyfweliad fydd sicrhau eich bod chi yn cael y cyfle i ddangos eich gallu a'ch diddordeb yn y maes

Mi fydd y cyfweliad yn cynnwys un tasg a cwestiynau

Peidiwch â phoeni, mi fyddwn ni'n cyflwyno'r cwestiynau yn llawn i chi cyn cychwyn i chi gael amser i feddwl am eich atebion

## CAMAU NESAF

Dyddiad cau i wneud cais fydd ar ddydd Mercher 24 o Fehefin 2026 am 10:00am.

Mi fydd y cyfweliadau yn rhedeg ar ddydd Iau y 9fed o Gorffennaf 2026.

Os yn llwyddiannus, mi fedrwch gychwyn y swydd yn syth neu ar ôl gweithio eich cyfnod rhybudd

# Pob lwc i chi